OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1135 (Cy. 273)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016

*Gwnaed* *22 Tachwedd 2016*

*Yn dod i rym* *24 Tachwedd 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984"), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Tachwedd 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth

ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 154 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ymyl ddiddosbarth o'r enw Ffordd Gethin, ym Mwrdeistref Sirol Conwy hyd at bwynt 43 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd â'r ffordd ymyl ddiddosbarth o'r enw Rhes Dolydd, hefyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

**4**. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Atal Dros Dro**

**5.** Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pentre-du, Betws-y-coed, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2016(3) wedi ei atal dros dro tra bydd y terfyn cyflymder o 20 mya yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Tachwedd 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(3) O.S. 2016/385 (Cy. 119).